



Prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr – EN010112

Cyngor Adran 51 mewn perthynas â dogfennau cais drafft a gyflwynwyd gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited

Ar 17 Ionawr 2022, cyflwynodd Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited y dogfennau drafft canlynol i'w hadolygu gan yr Arolygiaeth Gynllunio fel rhan o'i Gwasanaeth Cyn Ymgeisio¹:

1. Adroddiad Ymgynghori
2. Gorchymyn Cydsyniad Datblygu
3. Memorandwm Esboniadol
4. Cynlluniau Gwaith

Mae'r cyngor a gofnodir yn y tabl sy'n cynnwys y ddogfen hon yn ymwneud yn unig â materion a godwyd ar adolygiad yr Arolygiaeth Cynllunio o'r dogfennau cais drafft, ac nid rhinweddau'r cynnig. Mae'r cyngor wedi'i gyfyngu gan yr amser sydd ar gael ar gyfer ystyried, ac fe'i codir heb ymrwymo i dderbyn neu wrthod y cais dilynol.

¹ Gweler <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/application-process/pre-application-service-for-applicants/>



Adroddiad Ymgynghori		
Rhif Cyf.	Paragraff/ Adran	Sylw/Cwestiwn
1.	Cyffredinol	<p>Yn unol â Nodyn Cyngor 6 yr Arolygiaeth, rhaid i ddogfennau Cais adran 8 beidio â chynnwys hyperddolenni at ddogfennau/tystiolaeth y tu allan i ddogfennau'r cais e.e. adroddiadau technegol neu ganllawiau a gynhelir ar wefan Ymgeisydd neu drydydd parti.</p> <p>Ni all yr Awdurdod Archwilio, Partïon â Buddiant a'r Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar ddogfennau/tystiolaeth na all yr Arolygiaeth eu rheoli'n uniongyrchol mewn perthynas ag argaeledd a chynnwys (gan gynnwys o safbwynt GDPR y DU). Dylai ymgeiswyr ymdrechu i sefydlu prosesau sy'n osgoi defnyddio hyperddolenni'n gyfan gwbl wrth baratoi dogfennau cais i'w cyflwyno. Bydd unrhyw hyperddolenni o'r math hwn yn cael eu golygu o ddogfennau'r cais gan yr Arolygiaeth cyn eu cyhoeddi.</p> <p>Fodd bynnag, mae dolenni at wefannau dilysadwy fel Gov.uk yn dderbyniol ac ni fyddant yn cael eu golygu cyn cyhoeddi.</p>
2.	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr adroddiad terfynol yn cynnwys gwybodaeth lawn am yr ymgynghoriad targedig a42 gan y bydd gwiriadau derbyn yn ystyried y ddau ymgynghoriad.
3.	Cyffredinol	Dylid darparu cyfiawnhad yn yr Adroddiad Ymgynghori ar gyfer unrhyw gyrff nad ymgynghorwyd â nhw, gan gynnwys y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) neu Awdurdod Llundain Fwyaf.
4.	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl Atodiadau y cyfeiriwyd atynt yn yr Adroddiad Ymgynghori drafft wedi'u cynnwys yn y fersiwn derfynol.
5.	Cyffredinol	Un o'r gwiriadau a gynhelir gan yr Arolygiaeth yn ystod y cam derbyn yw cymharu'r rhestr o ymgynghoreion a42 PA 2008 yn erbyn y Llyfr Cyfeiriadau. Dylai'r Ymgeisydd gynnal ei adolygiad ei hun o hyn cyn cyflwyno'r cais, ac os oes unrhyw anghysondebau rhwng y ddwy ddogfen, dylid egluro'r rhain yn yr Adroddiad Ymgynghori.
6.	Cyffredinol	Dylai cyfeiriadau at gyhoeddi hysbysiadau fod yn benodol o ran y dyddiadau cyhoeddi llawn. Dylid cynnwys copiâu o hysbysiadau/ toriadau papur newydd i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio.



Adroddiad Ymgynghori		
Rhif Cyf.	Paragraff/ Adran	Sylw/Cwestiwn
7.	Cyffredinol	Dylid darparu manylion pellach i ddangos cydymffurfio ag a47 yn ymwneud ag ymgynghori ag awdurdodau lleol ar y Datganiad drafft o Ymgynghori Cymunedol (SoCC) a rhoi ystyriaeth i unrhyw ymatebion. Dylid cynnwys copïau o unrhyw lythyrau ymgynghori.
8.	Cyffredinol	Dylai'r Ymgeisydd amlinellu'r cyfiawnhad dros y dewis o leoliadau ar gyfer unrhyw awdurdodau cymdogol nad oedd lleoliad adneuo ganddynt.
9.	Cyffredinol a Thabl 3, Paragraff 73	Mae'r Arolygiaeth yn nodi, ar yr adeg gwmpasu, y nodwyd Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Conwy fel awdurdodau "B" (lletyol), fodd bynnag, mae'n ymwybodol y gallai ffiniau'r lanfa fod wedi'u mireinio ers hynny. Dim ond Cyngor Sir Ddinbych y cyfeirir ato fel awdurdod lletyol yn nhabl 3 o'r adroddiad ymgynghori, felly dylai'r Ymgeisydd ystyried cynnwys datganiad penodol i egluro unrhyw newidiadau i statws awdurdod lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad.
10.	Paragraff 67 a 71	Nid yw'n ymddangos bod yr Arolygiaeth, na BEIS ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, wedi derbyn yr hysbysiad a46. Os nad yw'r Adroddiad Ymgynghori yn cynnwys unrhyw wybodaeth bellach fel cyfeirnod olrhain y Post Brenhinol neu gopïau o gyflwyniadau e-bost, dylai'r Ymgeisydd egluro pam nad yw'n ystyried bod unrhyw bartïon wedi'u niweidio gan hyn. Yn ogystal, ar fater cysylltiedig, mae'r rhestr atodiadau'n cyfeirio at gydnabyddiaeth yr Arolygiaeth o'r hysbysiad a46. Gan ystyried y sylwadau uchod, nid anfonwyd unrhyw gydnabyddiaeth ac felly dylid dileu'r cyfeiriad o'r rhestr atodiadau.
11.	Paragraff 71 a 120	Mae paragraff 71 a 120 yr Adroddiad Ymgynghori'n cyfeirio at gynnwys hysbysiad AEA yr Ymgeisydd i'r Arolygiaeth dyddiedig 27 Awst 2021 yn yr Atodiad. Yn ôl cofnodion yr Arolygiaeth, derbyniwyd hysbysiad ffurfiol fod yr Ymgeisydd yn mynd i lunio Datganiad Amgylcheddol mewn llythyr dyddiedig 2 Ebrill 2020. Nid mater yn ymwneud â chydymffurfiaeth yw hyn, ond pwynt er cysondeb.
12.	Paragraff 74 – 77	Dylai'r Ymgeisydd sicrhau bod manylion yn ymwneud ag ymchwiliadau diwyd (gan gynnwys methodoleg) i adnabod ac ymgynghori â phersonau â buddiant mewn tiroedd yr effeithir arnynt gan y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) drafft wedi'u cynnwys yn yr adroddiad terfynol. Dylid darparu samplau o ohebiaeth gyda'r adroddiad terfynol os ydynt ar gael.
13.	Paragraffau 83, 84 a 104	Dylai cyfeiriadau at gynnwys y SoCC yn neunyddiau'r ymgynghoriad fod yn gyson.



Adroddiad Ymgynghori		
Rhif Cyf.	Paragraff/ Adran	Sylw/Cwestiwn
14.	Paragraff 94	Ceir cyfeiriad at gynnwys awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) ‘A’ amgylchynol yn ystod yr ymgynghoriad ar y Datganiad o Ymgynghori Cymunedol (SoCC) ond ymddengys ei fod yn hepgor Cyngor Sir Powys o’r rhestr o ACLlau a gynhwyswyd heb esboniad pam. Dylai’r Ymgeisydd egluro pam mae’n ymddangos nad yw wedi’i gynnwys (os dyma yw’r achos).
15.	Paragraff 116	Mae’n aneglur o’r geiriad p’un a fydd copi o’r hysbysiad a48 yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol. Dylai’r Ymgeisydd sicrhau bod hyn wedi’i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori.
16.	Adran 8	Gallai gosodiad yr adborth a dderbyniwyd a’r ystyriaeth a roddwyd i’r ymatebion fod yn haws i’w defnyddio ar ffurf tabl, i nodi pa faterion sydd wedi’u datrys a beth allai fod yn weddill. Mae paragraff 131 yn cyfeirio at dabl yn cael ei ddarparu fel atodiad, ond ni chynhwyswyd hwn yn yr adroddiad drafft a gyflwynwyd i’w adolygu. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i dystiolaeth o’r ystyriaeth a roddwyd i’r holl ymatebion penodol i’r ymgynghoriad a restrwyd yn yr adroddiad, ond nodom sylwadau sy’n dynodi bod adran o’r adroddiad drafft heb ei gwblhau o hyd.
17. T	Tabl 5	Byddai’n ddefnyddiol cynnwys yr ymatebion penodol i’r ymgynghoriad y mae’r newidiadau dylunio’n ymwneud â nhw, neu gyfeirio at ble gellir dod o hyd i hyn yn yr adroddiad. Byddai hyn yn cynorthwyo â nodi ystyriaeth yr Ymgeisydd o ymatebion penodol.
18.	Adran 10.3	Dylai’r Ymgeisydd sicrhau bod tystiolaeth ategol ar gael yn yr adroddiad (lle bo’n briodol) i gefnogi datganiadau yn y rhestr wirio cydymffurfio.

Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/ Atodlen	Sylw/Cwestiwn
19.	Drafftio	Dylai’r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO): <ul style="list-style-type: none"> fod yn nhempeld yr Offeryn Statudol



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<ul style="list-style-type: none"> dilyn canllawiau ac arfer gorau ar gyfer drafftio Offeryn Statudol (er enghraifft, osgoi “bydd/dylai” [“shall/should”] yn unol â’r fersiwn ddiweddaraf o’r canllawiau gan Swyddfa’r Cwnsleriaid Seneddol dilyn canllawiau drafftio arfer gorau gan yr Arolygiaeth Gynllunio a’r Adrannau yn Nodyn Cyngor 15 – Drafftio gorchmynion cydsyniad datblygu (a gweler cyfeiriadau penodol at Nodyn Cyngor 15 isod) fod wedi’i archwilio’n llawn i sicrhau nad oes unrhyw anghysondebau o fewn y DCO a’i rannau cyfansoddol fel diffiniadau neu fynegiadau yn yr erthyglau, gofynion, darpariaethau amddiffynnol, atodlenni eraill ac unrhyw lyfr cyfeiriadau a/neu unrhyw drwydded forol dybiedig (gan gynnwys y cwmpas gwaith a ganiateir – ni ddylai trwydded forol dybiedig ganiatáu gwaith y tu allan i gwmpas hynny a ganiateir gan y DCO ei hun), bod yr holl gyfeiriadau deddfwriaethol yn y DCO at ddarpariaethau sy’n bodoli a bod yr holl atodlenni’n cyfeirio at yr erthyglau cywir. Hefyd, dylai diffiniadau fod yn union fanwl, yn gywir ac yn gymharol hawdd eu deall (e.e. os yw diffiniad wedi’i ddrafftio mewn ffordd sy’n gorfodi’r darlennydd i groesgyfeirio at eiriad mewn amryfal ddogfennau eraill er mwyn deall y diffiniad, yna nid yw’n hawdd ei ddeall). Lle cyfeirir at unrhyw gwmni cofrestredig yn y DCO (neu unrhyw drwydded forol dybiedig) dylid ei ddiffinio drwy ddefnyddio’i enw cwmni llawn a manwl gywir a’r rhif cofrestru cwmni (fel y rheiny sy’n ymddangos ar y gofrestr a ddelir gan Dŷ’r Cwmnïau). fod yn destun adolygu cyson gan yr ymgeisydd trwy gydol unrhyw archwiliad fel bod diffiniadau’n cael eu diweddarau’n gyson ganddo wrth i faterion esblygu – e.e. : unrhyw ddiffiniad o ‘ddatganiad amgylcheddol’ yng nghyd-destun sut/y dibenion y cyfeirir ato yn y DCO; neu sut caiff cynlluniau a lluniadau eu diffinio (a lle bo modd, cynnwys rhifau lluniadau/diwygiadau). <p>Yn ogystal, lle mae’r Nodyn Esboniadol ar ddiwedd y DCO drafft yn dweud y bydd dogfennau ar gael i’w harchwilio mewn lleoliad trydydd parti, dylid gofyn i’r ymgeisydd i gadarnhau’n ysgrifenedig fod y trydydd parti datganedig wedi cytuno i hynny.</p>
20.	Cynseiliau	<p>Er bod cynsail drafftio wedi’i osod gan DCOau blaenorol neu orchmynion tebyg, dylid darparu cyfiawnhad llawn ar gyfer pob pŵer/darpariaeth gan ystyried ffeithiau’r cais DCO penodol hwn.</p> <p>Lle dibynnwyd ar gynseiliau drafftio mewn DCOau a wnaed yn flaenorol, dylid gwirio’r rhain i nodi p’un a chawsant eu mireinio neu’u datblygu ar ôl hynny yn y DCOau mwyaf diweddar, fel bod darpariaethau’r DCO yn adlewyrchu dewisiadau polisi presennol yr Ysgrifennydd Gwladol. Os yw unrhyw ddarpariaethau cyffredinol (heblaw am</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		ddisgrifiadau gwaith a drafftiau eraill sy'n bwrpasol i ffeithiau'r cais penodol hwn a'r DCO) yn gwahaniaethu mewn gwirionedd mewn unrhyw ffordd oddi wrth ddarpariaethau cyfatebol yn y DCOau a wnaed yn fwyaf diweddar gan yr Ysgrifennydd Gwladol, byddai'n well darparu eglurhad ynglŷn â pham a sut maent yn gwahaniaethu (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i newidiadau i ddarpariaethau statudol a wnaed gan Ddeddf Tai a Chynllunio 2016 neu yn gysylltiedig â hi).
21.	Drafftio newydd	<p>Dylai diben unrhyw ddarpariaeth, ac angenrheidrwydd am unrhyw ddarpariaeth sy'n defnyddio drafftio newydd ac nad oes iddi unrhyw gynsail mewn DCO a wnaed neu orchymyn statudol tebyg gael eu hegluro yn y Memorandwm Esboniadol. Dylai pŵer Deddf Cynllunio 2008 y mae unrhyw ddarpariaeth o'r fath wedi'i seilio arni gael ei nodi yn y Memorandwm Esboniadol hefyd. Dylai'r drafftio fod</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn ddiamwys • yn fanwl gywir • cyflawni'r hyn y mae'r ymgeisydd am ei gyflawni • yn gyson ag unrhyw ddiffiniadau neu fynegiadau mewn darpariaethau eraill y DCO • dilyn canllawiau ac arfer gorau ar gyfer drafftio Offeryn Statudol y cyfeiriwyd ato uchod.
22.	Hyblygrwydd – fel y darparwyd er enghraifft yn yr erthygl cynnal a chadw a'r diffiniad, diffiniad o cychwyn, pŵer i wŷro, datblygiad awdurdodedig Atodlen 1 a gofynion	<p>Dylai graddfa unrhyw hyblygrwydd a ddarperir gan y DCO gael ei hegluro'n llawn, fel cwmpas gwaith cynnal a chadw a gwaith ategol, cyfyngiadau gwyro ac unrhyw allu arfaethedig (drwy ôl-ddarnau) gan awdurdodau cyflawni i awdurdodi diwygiadau dilynol.</p> <p>Y dull a ffefrir o gyfyngu'r hyblygrwydd hwn yw cyfyngu'r gwaith (neu'r diwygiadau) i'r rheiny na fyddent yn peri unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n <u>sylweddol newydd neu'n sylweddol wahanol</u> i'r rheiny a nodwyd yn y datganiad amgylcheddol. Hefyd, ymhellach o ran ôl-ddarnau, gweler adran 17 o Nodyn Cyngor 15.</p> <p>Dylai'r drafftio sy'n creu elfen o hyblygrwydd (neu ddewisiadau amgen) ddarparu'n glir ar gyfer amgylchiadau nas rhagwelwyd a diffinio cwmpas yr hyn sy'n cael ei awdurdodi gyda manylder digonol. Er enghraifft, bu'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio erthygl 6 (Benefit of Order) Gorchymyn Cydsyniad Datblygu'r Grid Cenedlaethol</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
	Mae'r Memorandwm Esboniadol para 4.2 yn egluro'r defnydd o Amlen Rochdale gyda rhywfaint o fanylion y cynllun i'w cymeradwyo ar ôl rhoi cydsyniad. Darperir ar gyfer cymeradwyo'r manylion hynny yn y Gofynion yn Atodlen 2 Rhan 1 y Gorchymyn.	(Prosiect Cysylltu Richborough) 2017 yn y cam penderfynu i ddileu amwysedd (fel y'i cywirwyd yn ddiweddarach gan Orchymyn (Cywiro) (Prosiect Cysylltu Richborough) y Grid Cenedlaethol 2018). O ran yr hyblygrwydd i gyflawni gwaith ymlaen llaw, dylai unrhyw "eithriad" o'r diffiniad "cychwyn" gael ei gyfiawnhau'n llawn a dylid dangos bod y cyfryw waith yn de minimis ac nad yw'n cael effeithiau amgylcheddol y byddai angen iddynt gael eu rheoli gan ofyniad. Gweler adran 21 o Nodyn Cyngor 15. Dylai gofynion cyn-gychwyn gael eu hasesu hefyd i sicrhau nad yw'r "eithriad" o'r diffiniad hwnnw o "cychwyn" yn caniatáu gwaith sy'n rhwystro diben y gofyniad.
23.	Cydsyniad datblygu ac ati a roddwyd gan y gorchymyn Erthygl 3	Bwriad yr erthygl hon yw osgoi anghysondeb gyda darpariaethau statudol perthnasol eraill sy'n gymwys yn y cyffiniau, ond, er gwaethaf cynseiliau eraill, dylid darparu gymaint o wybodaeth ag y bo modd am "unrhyw ddeddfiadau" ynghyd ag eglurhad ynglŷn â pha mor bell o gyfyngiadau'r Gorchymyn y gallai'r ddarpariaeth gael cyfle.
24.	Caffael yn orfodol a diddymu hawliau	Dylid drafftio'r darpariaethau hyn (ac unrhyw gynlluniau perthnasol) yn unol â'r arweiniad yn Nodyn Cyngor 15, ac yn benodol, adrannau 23 (diddymu hawliau) a 24 (cyfamodau cyfyngol) Dylid nodi penderfyniad Adran Drafndiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol (paragraff 62 o DCO Traffordd yr M4 (Cyffyrdd 3 i 12) (Traffordd Glyfar)): <i>"i ddileu'r pŵer i bennu cyfamodau cyfyngol a darpariaethau cysylltiedig gan nad yw o'r farn ei</i>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
	Erthyglau 18; 20; 21	<p><i>bod yn briodol i roi pŵer mor gyffredinol dros unrhyw ran o dir y Gorchymyn fel y'i diffinnir yn erthygl 2(1) yn absenoldeb cyfiawnhad penodol a chilir dros roi pŵer mor eang yn amgylchiadau'r datblygiad arfaethedig a heb ddynodiad o'r modd y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio". Mae penderfyniadau eraill yr Adran Drafnidiaeth wedi cynnwys safbwyntiau tebyg iawn, e.e. DCO yr A556 (Gwelliant Knutsford i Bowdon) a DCO Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn (Torrisholme at Gyswllt yr M6 (A683 Cwblhau Ffordd Gyswllt Heysham i'r M6)).</i></p> <p>Ni all caffael yn orfodol buddiant mewn tir a ddelir <u>gan</u> neu ar ran y Goron gael ei awdurdodi drwy'r erthygl hon nac unrhyw erthygl arall. Gellir cyflawni sicrhad eglurder o ran hyn, er enghraifft, drwy hepgor yn benodol yr holl fuddiannau a ddelir gan neu ar ran y Goron yn nisgrifiadau tir y llyfr cyfeiriadau ar gyfer plotiau perthnasol (lle mae'r DCO wedi'i ddrafftio i glymu pwerau caffael gorfodol i gofnodion yn y llyfr cyfeiriadau) neu drwy eu disgwyl o'r diffiniad o dir y Gorchymyn (os na chaiff y diffiniad 'tir y Gorchymyn' ei ddefnyddio at ddibenion eraill yn y DCO) neu drwy ddrafftio'r erthygl caffael gorfodol berthnasol i'w hepgor yn benodol. Lle mae ymgeisydd yn dymuno caffael yn orfodol buddiant rhyw berson arall yn yr un tir hwnnw, gellir ond gwneud hynny os yw awdurdod priodol y Goron yn cydsynio i hynny o dan a135(1) Deddf Cynllunio 2008.</p> <p>Lle mae ymgeisydd yn dymuno creu a chaffael yn orfodol hawliau newydd dros dir, dylai'r hawliau hynny gael eu diffinio'n llawn, yn gywir ac yn fanwl ar gyfer bob plot perthnasol a dylai'r caffaeliad gorfodol fod yn gyfyngedig i'r hawliau a ddisgrifiwyd. Gellid gwneud hyn trwy ddrafftio sy'n cyfyngu ar gaffael yn orfodol hawliau newydd i'r rheiny a ddisgrifiwyd mewn atodlen yn y DCO neu i'r rheiny a ddisgrifiwyd yn y llyfr cyfeiriadau.</p> <p>Os caiff yr erthygl ei drafftio i alluogi caffael yn orfodol hawliau newydd dros holl dir y Gorchymyn, gydag atodlen sy'n cyfyngu ar y pŵer caffael gorfodol mewn plotiau diffiniedig i'r hawliau diffiniedig a restrwyd yn yr atodlen honno, dylai'r ymagwedd hon (sy'n caniatáu hawliau anniffiniedig mewn tir nad yw wedi'i restru yn yr Atodlen honno) gael ei nodi'n eglur a dylid egluro'r angen amdani a'i chyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol a'r Datganiad o'r Rhesymau. Mae'n debygol y bydd yn anodd ei gyfiawnhau. Mae'n rhaid bod tystiolaeth i ddangos bod personau â buddiant yn nhir y Gorchymyn yn ymwybodol bod hawliau newydd anniffiniedig yn cael eu ceisio dros holl dir y Gorchymyn ac yr ymgynghorwyd â nhw ar y sail honno. Fe wnaeth Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Drafnidiaeth, mewn o leiaf tri phenderfyniad (DCO A585 Windy Harbour i Briffordd Skipool, DCO A30 Chiverton i Carland Cross, DCO Maes Awyr</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p>Manston) gyfyngu'r pŵer i greu hawliau newydd anniffiniedig trwy ddiwygio'r erthygl meddiant dros dro (gweler isod yn 22).</p> <p>Dylid nodi yn DCO Maes Awyr Manston bod yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Drafndiaeth wedi dileu'r gallu i greu hawliau newydd anniffiniedig dros dir y'i nodwyd ar gyfer meddiant dros dro er nad oedd yn fater mewn archwiliad. Mae'r rhesymau am hyn wedi'u hamlinellu ym mharagraff 121 y DL: "Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn pryderu ynglŷn â chreu hawliau annynodedig newydd ac mae'n aneglur o ran p'un a ymgynghorwyd yn briodol â pherchnogion tir yr effeithir arnynt."</p> <p>Ym mhob agwedd (gan gynnwys mewn perthynas â'r llyfr cyfeiriadau), dylai'r ymgeisydd ddilyn <i>Deddf Cynllunio 2008: Canllawiau'n ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol</i> a gyhoeddwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol erbyn hyn) ym mis Medi 2013.</p>
25.	<p>Ymgymerywr statudol a chyfarpar</p> <p>Erthygl 29</p>	<p>Lle mae cynrychiolaeth yn cael ei gwneud gan ymgymerwr statudol (neu ryw berson arall) sy'n ymgysylltu ag adran 127(1) Deddf Cynllunio 2008 ac nad yw wedi'i thynnu'n ôl, ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu awdurdodi pwerau caffael gorfodol yn ymwneud â thir yr ymgymerwr statudol hwnnw oni bai ei fod yn fodlon â materion penodedig a amlinellwyd yn adran 127. Os na thynnir y gynrychiolaeth yn ôl erbyn diwedd yr archwiliad, bydd angen i'r Awdurdod Archwilio ddod i gasgliad p'un ai i argymell neu beidio ag argymell bod y prawf statudol perthnasol wedi'i fodloni yn unol ag a.127.</p> <p>Ni fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu awdurdodi symud neu ail-leoli cyfarpar (na diddymu hawl ar ei gyfer) oni bai ei fod yn fodlon fod y diddymiad neu'r symud yn angenrheidiol at y diben o gyflawni'r datblygiad y mae a wnelo'r gorchymyn ag ef yn unol ag adran 138 Deddf Cynllunio 2008. Bydd angen dangos cyfiawnhad fod diddymu neu symud yn angenrheidiol.</p>
26.	<p>Cau dros dro a chyfyngu ar</p>	<p>Er gwaethaf cynseiliau eraill, dylid darparu cyfiawnhad ynglŷn â pham mae'r pŵer yn briodol ac yn gymesur gan ystyried yr effeithiau ar gerddwyr ac eraill yn sgil awdurdodi safleoedd gweithio dros dro yn y strydoedd hyn.</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
	ddefnydd o strydoedd Erthyglau 11 a 12	
27.	Datgymhwyso neu ddiwygio deddfwriaeth/darpariaethau statudol Erthygl 7	<p>Dylid dilyn yr arweiniad yn adran 25 o Nodyn Cyngor 15 ac, os na chafodd ei darparu'n barod, dylid ceisio gwybodaeth ychwanegol megis</p> <ul style="list-style-type: none"> • diben y ddeddfwriaeth/darpariaeth statudol • y personau/corff â'r pŵer wedi'i ddatgymhwyso • eglurhad ynglŷn ag effaith datgymhwyso a ph'un a yw unrhyw ddarpariaethau neu ofynion amddiffynnol yn ofynnol i atal unrhyw effaith niweidiol rhag codi o ganlyniad i ddatgymhwyso'r rheolaethau deddfwriaethol • (trwy gyfeiriad at adran 120 o, ac Atodlen 5 i Ddeddf Cynllunio 2008) sut mae pob darpariaeth a ddatgymhwyswyd yn fater y gellid gwneud darpariaeth ar ei gyfer yn y DCO. <p>Lle mae'r cydsyniad yn dod o fewn atodlen i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon â Buddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015, bydd angen tystiolaeth bod y rheoleiddiwr wedi rhoi cydsyniad i ddileu'r angen am y cydsyniad yn unol ag a.150 Deddf Cynllunio 2008.</p>
28.	Hawliau'r Goron Erthygl 37	<p>Dylid dileu'r gair "take [cymryd]" o'r erthygl hon.</p> <p>Dylid cael cydsyniad hefyd o dan adran 135 (1) a (2) gan awdurdod y Goron.</p>
29.	Cwmpo neu docio coed a thynnu gwrychoedd Coed sy'n destun gorchmynion cadw coed	<p>Dylid dilyn yr arweiniad yn adran 22 o Nodyn Cyngor 15. Os na ddilynwyd yr arweiniad, dylid darparu cyfiawnhau dros hynny.</p> <p>Os yw'r erthygl 'cwmpo neu docio' wedi'i drafftio i ganiatáu'r cyfryw weithredoedd i goed o fewn a 'gerllaw' terfynau'r Gorchymyn, a ddylid rhoi ystyriaeth i ddiwygio hynny, fel ei fod ond yn berthnasol i goed sydd o fewn neu'n 'llechfeddiannu' terfynau'r Gorchymyn?</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
	Erthyglau 33 a 34	
30.	Gweithdrefn ar gyfer cyflawni gofynion Erthygl 43	<p>Mae Nodyn Cyngor 15 yn darparu drafftio safonol ar gyfer erthyglau sy'n delio â chyflawni gofynion. Os na ddilynwyd yr arweiniad hwn, dylid darparu cyfiawnhau dros hynny.</p> <p>Yn DCO Canolfan Banc Ynni De Humber fe wnaeth Ysgrifennydd Gwladol BEIS ddileu erthygl a geisiai cymhwyso darpariaethau apelio a.78 ac a.79 TCPA 1990 i gyflawni gofynion a'i disodli â gweithdrefn apelio benodol yn yr erthygl ei hun. Eglurodd Ysgrifennydd Gwladol BEIS yn ei lythyr penderfyniad mai'r weithdrefn apelio benodol oedd y "dull a ffefrir ar gyfer apeliadau".</p> <p>Mae Nodyn Cyngor 15 yn awgrymu y dylai'r weithdrefn apelio benodol gael ei chynnwys mewn atodlen i'r DCO yn hytrach nag yn yr erthygl ei hun. Er i'r Ysgrifennydd Gwladol yn Ne Humber gynnwys y weithdrefn benodol yn yr erthygl ei hun, mae'r llythyr penderfyniad yn cyfeirio at mai'r weithdrefn apelio benodol yw'r dull a ffefrir yn hytrach na'i chynnwys yn yr erthygl. Ystyrir ei bod yn dderbyniol felly i'r weithdrefn apelio benodol gael ei hamlinellu mewn atodlen i'r DCO fel y pennir yn y Nodyn Cyngor.</p> <p>Mae'n werth nodi hefyd bod penderfyniad De Humber yn benderfyniad gan Ysgrifennydd Gwladol BEIS ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barnau unrhyw Ysgrifennydd Gwladol arall.</p>
31.	Budd y Gorchymyn Erthygl 6	<p>Os yw unrhyw ran o'r erthygl hon yn cael ei drafftio i ganiatáu unrhyw drosglwyddo budd gan yr ymgeisydd (ymgymerwr) i unrhyw berson arall a enwyd neu i gategori o berson heb yr angen am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, yna dylai'r ymgeisydd ddarparu cyfiawnhad llawn ynglŷn â pham y mae trosglwyddo i'r cyfryw berson yn briodol. Lle mai diben y ddarpariaeth yw galluogi'r cyfryw berson(au) i ymgymryd â gwaith penodol a awdurdodwyd gan y DCO dylai'r trosglwyddo budd fod yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw. Os yw'r ddarpariaeth yn ceisio caniatáu trosglwyddo pwerau caffael gorfodol dylai'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth i fodloni'r Ysgrifennydd Gwladol bod cyllid digonol gan y cyfryw berson i dalu costau iawndal y caffaeliad.</p> <p>Gweler 23 isod yn ymwneud â chyfeiriadau at gymrodeddu yn yr erthygl hon.</p>
32.	Gollwng Dŵr	Dylai'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o adran 146 Deddf Cynllunio 2008.



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
	Erthygl 14	
33.	<p>Meddiant Dros Dro</p> <p>Erthyglau 27 a 28</p>	<p>Nid yw meddiant dros dro yn gaffaeliad gorfodol ynddo'i hun.</p> <p>Dylai erthyglau sy'n rhoi pwerau meddiant dros dro gael eu hystyried yn ofalus i wirio p'un a ydynt yn caniatáu neu beidio meddiant dros dro ar unrhyw dir o fewn terfynau'r Gorchymyn, ni waeth p'un a yw wedi'i restru neu beidio mewn unrhyw Atodlen i'r DCO sy'n nodi manylion plotiau penodol y gellir cymryd meddiant dros dro drostynt at ddibenion penodol a restrwyd yn yr Atodlen honno. Os ydynt, yna dylai'r ymgeisydd gyfiawnhau pam mae'r pwerau ehangach hynny (sy'n caniatáu meddiant dros dro ar dir na yw wedi'i restru yn yr Atodlen honno) yn angenrheidiol ac yn briodol, ac egluro pa gamau y mae wedi'u cymryd i hysbysu'r holl berchnogion tir, meddianwyr, ac ati o fewn terfynau'r Gorchymyn am y posibilrwydd hwn.</p> <p>Os nad yw eisoes yn bresennol, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ychwanegu darpariaeth sy'n gorfodi'r ymgeisydd (ymgymerwr) i symud o'r cyfryw dir (pan fydd yn peidio â'i feddiannu dros dro) unrhyw offer, cerbydau neu waith dros dro y mae'n ei wneud arno (ac eithrio ailadeiladu adeiladau a ddymchwelwyd o dan bwerau a roddwyd gan y DCO), oni bai ei fod, cyn peidio â'i feddiannu dros dro, wedi gweithredu unrhyw bŵer ar wahân o dan y DCO i'w gaffael yn orfodol.</p> <p>Os caiff erthyglau caffael gorfodol (tir a hawliau) eu drafftio i awdurdodi caffael yn orfodol holl dir y Gorchymyn bydd angen darpariaeth yn yr erthygl meddiant dros dro sy'n atal caffael yn orfodol tir a fwriadwyd iddo gael ei ddefnyddio dros dro yn unig. Er enghraifft:</p> <p><i>Ni chaiff yr ymgwymerwr gaffael yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn y tir y cyfeirir ato ym mharagraff [(1)(a)(i)] ac eithrio nad yw'r ymgwymerwr i'w atal rhag caffael unrhyw ran o'r isbridd neu'r gofod awyr dros (neu hawliau yn yr isbridd neu'r gofod awyr dros) y tir hwnnw o dan erthygl [xx] (caffael isbridd neu ofod awyr yn unig).</i></p> <p>Yn y senario hwnnw, byddai angen i'r erthygl caffael gorfodol gael ei drafftio hefyd mewn ffordd sy'n mynegi ei bod yn ddarostyngedig i'r erthygl meddiant dros dro (drwy gyfeirio at rif yr erthygl meddiant dros dro).</p> <p>Os yw drafftio'r erthygl meddiant dros dro yn dweud hefyd nad yw'r ymgwymerwr wedi'i atal rhag:</p> <p><i>caffael hawliau newydd neu bennu cyfamodau cyfyngol dros unrhyw ran o'r tir hwnnw o dan erthygl [xx] (caffael hawliau'n orfodol)</i></p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p>rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i ddrafftio'r erthygl caffael hawliau'n orfodol mewn perthynas â hawliau/cyfyngiadau newydd ac effaith ei ryngweithio gyda'r ddarpariaeth hon.</p> <p>Os yw'r erthygl caffael hawliau yn orfodol yn awdurdodi creu hawliau newydd dros holl dir y gorchymyn, yn ychwanegol at yr hawliau newydd a ddisgrifiwyd mewn atodlen benodol, bydd geiriad sy'n caniatáu creu hawliau newydd yn unol â'r erthygl honno'n caniatáu creu hawliau newydd anniffiniedig yn y tir y rhoddir pwerau meddiant dros dro drosto (h.y. yr atodlen yn y DCO sy'n rhestru'r plotiau yr awdurdodir meddiant dros dro drosto –Atodlen 6). Mae hyn yn debygol o fod yn anodd ei gyfiawnhau.</p> <p>Yn yr amgylchiadau hyn mae'n bwysig edrych yn ofalus ar y llyfr cyfeiriadau, cynlluniau'r tir a'r Datganiad o'r Rhesymau i weld sut mae'r tir yn Atodlen 6 yn cael ei adnabod a'i ddisgrifio. Os yw'r tir yn cael ei ddisgrifio'n gyson fel tir ar gyfer meddiant dros dro, yna gallai fod nad yw'r personau sydd â buddiant yn y tir wedi deall natur y pwerau a geisir dros eu tir ac o ganlyniad nid ymgynghorwyd â nhw'n gywir. Dylai'r ymgeisydd fod yn gallu egluro'n glir y pwerau y mae'n eu ceisio dros y plotiau hyn, yr angen am y pwerau hyn, a sut caiff hyn ei sicrhau yn y DCO, a darparu tystiolaeth yr ymgynghorwyd yn briodol â'r holl bersonau â buddiant yn y plotiau hyn mewn ffordd a oedd yn eglur ynglŷn â natur y pwerau a geisir.</p> <p>Mae'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer yr Adran Drafndiaeth wedi cyhoeddi tri phenderfyniad sy'n diwygio drafftio'r erthygl meddiant dros dro i ddileu'r pŵer i greu hawliau newydd anniffiniedig yn y tir y disgrifir ei fod ar gyfer meddiant dros dro (DCO A585 Windy Harbour i Briffordd Skippool, DCO A30 Chiverton i Carland Cross, DCO Maes Awyr Manston). Roedd un o'r prif resymau am hyn yn gysylltiedig â'r methiant i ymgynghori'n gywir â'r rheiny â buddiant yn y tir ar natur y pwerau a geisir, gyda'r tir yn cael ei ddisgrifio yn yr holl ddogfennau ategol ac ar y cynlluniau tir, fel tir ar gyfer meddiant dros dro yn unig.</p> <p>Gallai fod amgylchiadau lle caniateir cadw drafftio sy'n galluogi'r ymgymerwr i gaffael hawliau newydd yn y tir yn yr atodlen i'r DCO sy'n rhestru'r plotiau yr awdurdodir meddiant dros dro drostynt (Erthygl 27; Atodlen 6). Er enghraifft, lle ceir plotiau sy'n trawsgroesi â'r rheiny a restrwyd mewn atodlen yn y DCO sy'n cynnwys manylion yr hawliau newydd a gafaelir dros dro (Erthygl 20; Atodlen 7). Yn yr amgylchiadau hynny, os diffinnir yr hawliau newydd yn fanwl ac yr ymgynghorwyd arnynt, gallai drafftio gael ei gynnwys yn y DCO, megis fel a ganlyn:</p> <p><i>Ni chaiff yr ymgymerwr gaffael yn orfodol o dan y Gorchymyn hwn y tir y cyfeirir ato ym mharagraff [(1)(a)(i)] ac eithrio nad yw'r ymgymerwr wedi'i atal rhag— (a) caffael hawliau newydd neu bennu cyfamodau cyfyngol dros unrhyw ran o'r</i></p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p><i>tir hwnnw o dan erthygl [] (caffael hawliau'n orfodol) i'r graddau bod y cyfryw dir wedi'i restru yng ngholofn [(1)] o Atodlen [xx]...</i></p> <p>Mae cynsail i'r drafftio hwn yn DCO Tair Fferm Wynt Alltraeth East Anglia, DCO Dwy Fferm Wynt Alltraeth Hornsea a DCO Fferm Wynt Alltraeth Vanguard Norfolk.</p> <p>O ystyried y gymeradwyaeth seneddol i'r gyfundrefn meddiant dros dro o dan Ddeddf Cynllunio Cymdogaeth 2017 ('NPA 2017'), a oedd yn destun ymgynghori a thrafod cyn cael ei deddfu, a ddylai unrhyw ddarpariaethau sy'n ymwneud â hysbysiadau/gwrth-hysbysiadau nad ydynt yn adlewyrchu cyfundrefn arfaethedig NPA 2017 (os nad yw mewn grym eto) gael eu haddasu i adlewyrchu'n fanylach y gyfundrefn statudol sy'n dod i mewn lle bo modd? Fel enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y cyfnod hysbysu a fydd yn ofynnol o dan Ddeddf NPA 2017 yw 3 mis, sydd dipyn yn hirach na'r 14 diwrnod a fynnir o dan erthygl 27. Heblaw am gynsail blaenorol, beth yw'r cyfiawnhad dros fynnu hysbysiad 14 diwrnod yn unig yn yr achos hwn? • O dan NPA 2017, byddai'n rhaid i'r hysbysiad ddatgan hefyd y cyfnod y mae'r awdurdod caffael i gymryd meddiant drosto. A ddylai gofyniad o'r fath gael ei gynnwys yn yr achos hwn? • Dywedir weithiau bod cyfiawnhad dros bwerau meddiant dros dro oherwydd eu bod er budd perchnogion tir, na fyddai angen i'w tir gael ei gaffael yn barhaol wedyn. Mae darpariaethau NPA 2017 yn cynnwys y gallu i gyflwyno gwrth-hysbysiad yn gwrthwynebu'r meddiant dros dro arfaethedig fel y byddai'r opsiwn gan y perchennog tir i ddewis p'un ai meddiant dros dro neu gaffael parhaol oedd yn ddymunol. A ddylai'r erthygl hon wneud rhyw ddarpariaeth o'r fath – boed ar y ffurf yn NPA 2017 neu beidio?
34.	Cymrodeddu Erthygl 44	<p>Mae'n annhebygol y bydd Ysgrifennydd Gwladol sy'n cydsynio yn caniatáu i eiriad darpariaeth cymrodeddu gymhwysu cymrodeddu i benderfyniadau y gall fod rhaid iddo/iddi, neu, os yn berthnasol, y Sefydliad Rheoli Morol ('MMO') eu gwneud ar gydsyniadau neu gymeradwyaethau yn y dyfodol o fewn eu cylch gwaith.</p> <p>Fel enghraifft:</p> <p>Cynhwysodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer BEIS y drafftio canlynol yn yr erthygl cymrodeddu yn DCO Fferm Wynt Alltraeth Vanguard Norfolk a DCO drafft Tair Fferm Wynt Alltraeth Hornsea (a gyhoeddwyd gyda bwriad i gymeradwyo</p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p>penderfyniad) i ddileu unrhyw amheuaeth ynglŷn â chymhwyso cymrodeddu i benderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Sefydliad Rheoli Morol o dan y DCO:</p> <p><i>Ni fydd unrhyw fater y mynnir cydsyniad neu gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Sefydliad Rheoli Morol o dan unrhyw ddarpariaeth o'r Gorchymyn hwn yn destun cymrodeddu.</i></p> <p>Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer BEIS yn cytuno hefyd gydag argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i ddileu cyfeiriad at gymrodeddu yn yr erthygl trosglwyddo budd a thrwyddedau morol tybiedig (DMLs) yn DCOau Hornsea a Vanguard Norfolk. Mae adroddiad argymhellion Awdurdod Archwilio Hornsea yn 20.5.9 yn rhoi manylion y rhesymau dros ddileu o'r erthygl trosglwyddo budd, ac yn 20.5.17 – 20.5.24 ynglŷn â dileu o'r trwyddedau morol tybiedig.</p> <p>Dylid nodi hefyd fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dileu'r canlynol o'r cymal cymrodeddu yn y ddau DCO:</p> <p><i>Pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn methu gwneud apwyntiad o dan baragraff cyn pen 14 diwrnod o gyfeirio, gall y parti cyfeirio gyfeirio at y Ganolfan ar gyfer Datrys Anghydfod yn Effeithiol er mwyn penodi cymrodeddwr.</i></p>
35.	<p>Amddiffyniad i drafodion mewn perthynas â niwsans statudol</p> <p>Erthygl 8</p>	<p>A yw'r rheolaethau ar sŵn yn rhywle arall yn y DCO yn ddigonol i gyfiawnhau'r amddiffyniad sy'n cael ei ddarparu gan yr erthygl hon i honiadau o niwsans statudol yn ymwneud â sŵn?</p> <p>Os yw'r amddiffyniad wedi'i ymestyn i fathau eraill o niwsans o dan adran 79(1) Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, bydd yr un cwestiwn yn berthnasol i'r niwsansau hynny.</p> <p>Mae'r erthygl hon yn cyfeirio weithiau hefyd at ddeddfwriaeth sydd wedi'i diddymu – e.e. a65 Deddf Rheoli Llygredd 1974. Dylai gyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol yn unig.</p>
(Tynnwyd y testun italig o AN13; sylwadau wedi'u teilwra ar gyfer y DCO hwn mewn testun trwm)		
36.	<p>Cyd-destun gweithdrefnol (gweler AN13)</p>	<p><i>AN13, para 2.9 a 2.10: Dylai'r DCO drafft gynnwys y canlynol:-</i></p> <p><i>Disgrifiad llawn, manwl a chyflawn o bob elfen o unrhyw "datblygiad cysylltiedig" angenrheidiol (Gweler a115), y dylid ei nodi'n glir mewn Atodlen i'r DCO drafft.</i></p>



Gorchymyn Cydsyniad Datblygu Drafft		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p><i>Mae datblygiad cysylltiedig yn israddol i'r NSIP, ond yn angenrheidiol er mwyn i'r datblygiad weithredu'n effeithiol i gapasiti ei ddyluniad.</i></p> <p>Ar hyn o bryd, nodir manylion y datblygiad cysylltiedig yn Rhif Gwaith 40 yn Atodlen 1. Ymholi a ddylai fynd i mewn i Atodlen ar wahân, neu roi is-bennawd cliriach iddo er mwyn rhwyddineb darllen?</p>

Memorandwm Esboniadol		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
(Tynnwyd y testun du o AN15; sylwadau wedi'u teilwra ar gyfer y DCO hwn mewn coch)		
37.	Cynnwys sylweddol (gweler AN15)	<p><i>AN15 para 1.4: ar gyfer pob darpariaeth, mae'r Awdurdod Archwilio'n debygol o fod eisiau bod yn fodlon ynglŷn â rhai materion penodol, fel: ffynhonnell y ddarpariaeth (boed yn DCO a wnaed yn flaenorol neu'n Orchymyn Deddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd, neu'n ddarpariaeth newydd); yr adran/ Atodlen o'r PA2008 y'i gwnaed o dani; pam mae'n berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig; pam mae'r Ymgeisydd o'r farn ei bod yn bwysig/ hanfodol i gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig.</i></p> <p>Nid yw'r Memorandwm Esboniadol (EM) yn egluro pam mae pob darpariaeth yn bwysig/ hanfodol, ac eithrio mewn perthynas ag Erthygl 27 (yn EM 4.85): mae angen mwy o fanylion yn hyn o beth.</p> <p><i>AN15 para 1.5: Os yw DCO drafft yn cynnwys geiriad a ddeilliwyd o DCOs eraill a wnaed, dylid egluro hyn yn y Memorandwm Esboniadol. Dylai'r Memorandwm Esboniadol egluro pam mae'r geiriad penodol hwnnw'n berthnasol i'r DCO drafft arfaethedig, er enghraifft, nodi manylion beth sy'n ffeithiol debyg ar gyfer yr NSIP perthnasol a ganiatawyd a'r Datblygiad Arfaethedig. Nid yw'n ddigonol i Femorandwm Esboniadol ddatgan yn syml fod darpariaeth benodol wedi'i ffafrio gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn flaenorol; bydd angen i'r Awdurdod Archwilio a'r Ysgrifennydd Gwladol ddeall</i></p>



Memorandwm Esboniadol		
Rhif Cyf.	Erthygl/Gofyniad/Atodlen	Sylw/Cwestiwn
		<p><i>pam ei bod yn briodol i'r cynllun yr ymgeisiwyd amdano. Dylid egluro hefyd unrhyw ddargyfeirio mewn geiriad o'r drafftio DCO a ganiatawyd.</i></p> <p>Ar adegau mae'r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod rhywfaint o amrywio o'r cynsail, ond mae'n methu darparu manylion pellach wedyn ynglŷn â natur y gwahaniaeth neu pam mae'n gwahaniaethu, gweler y Memorandwm Esboniadol 4.10 mewn perthynas ag Erthyglau 2 (3) a (4); Memorandwm Esboniadol 4.32 mewn perthynas ag Erthygl 7; Memorandwm Esboniadol 4.78 mewn perthynas ag Erthygl 24; Memorandwm Esboniadol 4.103 mewn perthynas ag Erthygl 33 a Memorandwm Esboniadol 4.11 mewn perthynas ag Erthygl 41.</p> <p><i>AN15 Para 1.6: Lle mae ymgeiswyr am gynnwys geiriad penodol neu gymhwyso ymagwedd benodol o gyfundrefn statudol wahanol mewn DCO drafft, dylai'r rhesymau dros wneud hynny a pherthnasedd hyn i'r cais gael eu hesbonio'n glir hefyd yn y Memorandwm Esboniadol. Eto, bydd angen i ymgeiswyr ystyried p'un a yw darpariaeth o'r fath o fewn pwerau'r PA2008 a chynnwys sylwadau ar y pwynt hwn yn y Memorandwm Esboniadol.</i></p> <p>Eto, byddai'r Memorandwm Esboniadol yn elwa o gael mwy o fanylion yn hyn o beth.</p>
